Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

1. Amcanion polisi

- Beth yw'r cynnig rydych chi'n asesu ei effaith?

Adolygu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth: cod ymarfer | LLYW.CYMRU (Cyfeirir ato yn y ddogfen hon fel "Y Cod"). Pan luniwyd y fframwaith, ymrwymodd y Gweinidog i adolygiad dwy flynedd. Mae angen i ni wirio ei fod wedi'i weithredu yn y ffordd gywir ac ymateb i adborth gan amrywiaeth o randdeiliaid ar lwyddiant gweithredu a'r hyn y gellir ei wella.

Fel babi, plentyn neu berson ifanc neu berson ifanc yng Nghymru, nod y Cod diwygiedig yw sicrhau bod y gwasanaethau gofal a chymorth sydd ar gael i **chi** yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd sy'n hyrwyddo eich lles, eich hawliau a'ch canlyniadau personol **chi.** Dylai gwasanaethau gael eu cynllunio o amgylch yr hyn sy'n bwysig i **chi**, gan ystyried eich llais, eich dymuniadau a'ch teimladau **chi.**

Mae'r cod yn annog awdurdodau lleol, byrddau iechyd a phartneriaid eraill i gydweithio er mwyn darparu cymorth cyson o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ledled Cymru. Mae hyn yn golygu y dylech **chi** gael mynediad at wasanaethau sy'n eich helpu **chi i** gyflawni'r canlyniadau gorau posibl, waeth ble rydych **chi'n** byw.

I **chi fel babi, plentyn neu berson ifanc**, mae hyn yn golygu y dylech **chi** gael eich cefnogi i wneud y canlynol:

- Dweud eich dweud mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eich bywyd a'ch dyfodol **chi**.
- Cael gofal a chymorth sy'n hyrwyddo eich lles, eich diogelwch a'ch datblygiad **chi.**
- Cyrchu gwasanaethau sy'n parchu eich hawliau, eich hunaniaeth, eich diwylliant a'ch iaith **chi**, gan gynnwys y Gymraeg lle bo hynny'n briodol.
- Elwa ar wasanaethau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol ac o ansawdd yn hytrach na chost yn unig.
- Profi cymorth cydgysylltiedig gan sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddiwallu eich anghenion **chi**.

Ar y cyfan, mae'r cod yn cefnogi dull sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan helpu i sicrhau eich bod **chi** yn cael gofal a chymorth sy'n eich galluogi **chi** i gyflawni eich canlyniadau personol **chi** a byw yn dda.

Credwn y bydd y diwygiadau arfaethedig i'r Cod yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar fabanod, plant a phobl ifanc yng Nghymru. Monitro ychwanegol a mwy cadarn o'r gwaith o weithredu'r cod ac adrannau penodol ychwanegol hefyd ynghylch comisiynu mewn ffordd niwrogynhwysol yw'r prif feysydd newid a fydd yn effeithio ar blant.

Fel plentyn yng Nghymru, nod y Cod yw sicrhau bod y gwasanaethau gofal a chymorth sydd ar gael i chi yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd sy'n hyrwyddo eich lles, eich hawliau a'ch canlyniadau personol. Dylid sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio o amgylch yr hyn sy'n bwysig i chi, gan ystyried eich llais, eich dymuniadau a'ch teimladau.

Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â babanod, plant neu bobl ifanc

- Pa ymchwil a data presennol ar fabanod, plant a phobl ifanc sydd ar gael i lywio eich polisi penodol? Gall eich amcan polisi effeithio ar feysydd polisi eraill – bydd trafodaethau gyda thimau polisi eraill yn rhan bwysig o'r broses asesu effaith, gan sicrhau eich bod wedi casglu amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth..

Mae'r Cod yn rhoi pwyslais cryf ar lais a rheolaeth, cydgynhyrchu, a deall "yr hyn sy'n bwysig" i unigolion. Mae'n ofynnol i gomisiynwyr gyd-gynllunio, cyd-ddarparu a chyd-werthuso gwasanaethau gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gan gynnwys babanod, plant neu bobl ifanc a phobl ifanc lle bo hynny'n briodol, gan sicrhau bod eu barn, eu profiadau a'u canlyniadau yn llywio penderfyniadau comisiynu.

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i bartneriaid statudol, wrth gomisiynu gwasanaethau ar gyfer babanod, plant neu bobl ifanc, pobl ifanc a theuluoedd, roi sylw i hawliau babanod, plant neu bobl ifanc a dulliau sy'n seiliedig ar hawliau babanod, plant neu bobl ifanc o gyfranogi a chynllunio gwasanaethau. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod profiadau bywyd babi, plentyn neu berson ifanc a phobl ifanc yn cael eu hadlewyrchu wrth gynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau.

Fe wnaeth rhwydwaith o weithwyr proffesiynol a sefydliadau sy'n gweithio ar draws gwasanaethau babanod, plant neu bobl ifanc gyfrannu tystiolaeth, deallusrwydd ac arbenigedd perthnasol, gan gynnwys

- Timau Comisiynu Gwasanaethau babanod, plant neu bobl ifanc
- Timau Rheoleiddio gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru
- Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant – gyda chysylltiadau â'r Comisiynydd Babanod, Plant a'r grŵp comisiynwyr ifanc
- Darparwyr gwasanaethau babanod, plant neu bobl ifanc
- Timau polisi ar gyfer gwasanaethau babanod, plant neu bobl ifanc.

At ddibenion y Cod hwn, mae comisiynu'n golygu gwneud penderfyniadau ynghylch pa wasanaethau sydd eu hangen i ymateb i anghenion gofal a chymorth babanod, plant neu bobl ifanc, teuluoedd.

Mae Safon 10 o'r Cod yn canolbwyntio ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Mae yna gysylltiadau clir â bodloni Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a rheoliad 18 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, yn ogystal â sicrhau y rhoddir sylw i Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru a Siarter Rhianta Corfforaethol | LLYW.CYMRU.

Mae Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth, Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn ogystal â ffynonellau data fel y canlynol oll wedi'u cysylltu o fewn y Cod i gefnogi comisiynwyr i gael mynediad at ddata amrywiol i'w cefnogi i gomisiynu gwasanaethau ar gyfer babanod, plant neu bobl ifanc yn effeithiol.

- Data ar gapasiti gwasanaethau cymdeithasol a’r galw amdanynt, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru
- Dangosfyrddau data Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant
- Dangosfyrddau data Gofal Cymdeithasol Cymru
- Adnodd data Arolygiaeth Gofal Cymru

Mae gan y Cod adran benodol ar Fframwaith NEST hefyd. Mae'n annog comisiynwyr i ddefnyddio'r fframwaith wrth gomisiynu gwasanaethau ar gyfer babanod, plant neu bobl ifanc a phobl ifanc. Mae'n annog dull "dim drws anghywir" ac yn atgyfnerthu cydgynhyrchu gyda phlant neu bobl ifanc a theuluoedd.

- Gan ddefnyddio'r gwaith ymchwil hwn, sut ydych chi'n rhagweld y bydd eich polisi yn effeithio ar wahanol grwpiau o fabanod, plant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol? Cofiwch y gall polisïau sy'n canolbwyntio ar oedolion effeithio ar fabanod, plant a phobl ifanc hefyd.

Disgwylir i'r Cod diwygiedig gael effaith gadarnhaol yn bennaf ar fabanod, plant neu bobl ifanc ledled Cymru. Mae'r Cod yn cryfhau dulliau comisiynu sy'n seiliedig ar hawliau, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n ataliol, yn cefnogi lles babanod, plant neu bobl ifanc a theuluoedd, yn hyrwyddo diogelu a chydraddoldeb, ac yn gwella cydweithredu ar draws gwasanaethau.

Rhagwelir buddion penodol i fabanod, plant neu bobl ifanc anabl, a'r rhai ag anghenion iechyd meddwl, babanod, plant neu bobl ifanc sy'n derbyn gofal (gan gynnwys y rhai mewn gofal maeth, gofal preswyl ac sy'n cael gofal gan berthynas), gofalwyr ifanc a babanod, plant neu bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau neu anghydraddoldebau ychwanegol. Ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol sylweddol a bydd risgiau gweithredu yn cael eu lliniaru trwy safonau cenedlaethol, cydgynhyrchu, monitro a gwelliant parhaus.

- Pa waith paratoi gyda babanod, plant neu bobl ifanc ydych chi wedi'i ddefnyddio i lywio eich polisi? Os nad ydych wedi ymgysylltu â babanod, plant a phobl ifanc, esboniwch pam.

Er bod ymgysylltu uniongyrchol â babanod, plant neu bobl ifanc yn gyfyngedig yng ngham datblygu'r Cod, gwnaethom geisio barn babanod, plant neu bobl ifanc trwy safbwyntiau babanod, plant neu bobl ifanc, ac mae'r rheini wedi llywio'r polisi trwy godau cenedlaethol presennol wedi'u cydgynhyrchu a dulliau sy'n seiliedig ar hawliau. Mae'r Cod yn ymwreiddio gofynion cyfranogiad parhaus er mwyn sicrhau bod lleisiau babanod, plant neu bobl ifanc yn dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch comisiynu a datblygu gwasanaethau yn y dyfodol. Rydym wedi gwneud gwaith ymgysylltu helaeth gyda rhanddeiliaid fel rhan o’r gwaith o adolygu'r cod a oedd yn cynnwys comisiynwyr, darparwyr a rheoleiddwyr babanod, plant neu bobl ifanc, yn ogystal â Chonsortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant.

2. Dadansoddi’r dystiolaeth ac asesu’r effaith

- Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gennych, pa effaith y mae eich polisi'n debygol o'i chael ar fabanod, plant neu bobl ifanc? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?

Ar y cyfan, disgwylir i'r Cod diwygiedig gael effaith gadarnhaol ar fabanod, plant neu bobl ifanc a phobl ifanc trwy gryfhau comisiynu ataliol, sy'n seiliedig ar hawliau ac sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn ledled Cymru. Ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol sylweddol. Bydd unrhyw risgiau gweithredu posibl yn cael eu lliniaru trwy gydgynhyrchu, gofynion diogelu, dyletswyddau cydraddoldeb a hawliau dynol, a defnyddio safonau a

chanllawiau comisiynu cenedlaethol. Bydd cryfhau'r broses o fonitro gwaith gweithredu'r Cod diwygiedig hefyd yn helpu i liniaru'r risgiau posibl hyn trwy dynnu sylw at feysydd nad ydynt yn cael eu gweithredu a llywio cymorth i gomisiynwyr gydymffurfio.

- Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau babanod, plant neu bobl ifanc, fel y nodir yn erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol? Nodwch bob erthygl berthnasol sy'n gymwys i'ch polisi a rhowch esboniad o sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio'r hawl honno. Lle bo effaith negyddol bosibl wedi'i nodi, esboniwch unrhyw gamau lliniaru a gymerir.

Erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn neu Brotocol Dewisol	**Yn Gwella** **x**	**Yn Herio** **x**	**Esboniad**
Erthygl 2: Peidio â gwahaniaethu: Mae gan bob babi, plentyn neu berson ifanc yr hawliau hyn waeth pwy ydyn nhw, ble maen nhw'n byw, eu hethnigrwydd, eu hiaith, eu crefydd, eu hanabledd, eu rhywedd neu unrhyw statws arall	Ie		Mae'r Cod diwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i bob comisiynydd sicrhau bod gwasanaethau gofal a chymorth yn deg. Mae mwy o ffocws wedi bod yn y cod diwygiedig drafft ar well cefnogaeth i bobl niwrowahanol sydd â'r nod o sicrhau dull gweithredu mwy cyson. Mae gan y cod ofynion cryf hefyd ynghylch meithrin perthnasoedd, cydgynhyrchu a sicrhau cydraddoldeb i'r holl arferion comisiynu ledled Cymru.
Erthygl 3: Buddiannau gorau'r baban, y plentyn neu'r person ifanc: Ym mhob cam sy'n ymwneud â babanod, plant neu bobl ifanc, rhaid i'w buddiannau gorau fod yn brif ystyriaeth. Dylai pawb sy'n gweithio gyda babanod, plant neu bobl ifanc wneud yr hyn sydd orau i bob babi, plentyn neu berson ifanc	Ie		Mae'r Cod diwygiedig yn cefnogi trwy ei gwneud yn ofynnol i gomisiynwyr sicrhau bod lles, ansawdd a chanlyniadau wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Trwy gomisiynu, cydgynhyrchu, atal, a ffocws ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol a hyn oll mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae'r cod yn helpu i sicrhau bod buddiannau gorau babanod, plant neu bobl ifanc yn brif ystyriaeth wrth gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau gofal a chymorth.

Erthygl 12: Parch at farn y babi, y plentyn neu'r person ifanc: Mae gan fabanod, plant neu bobl ifanc yr hawl i fynegi eu barn yn rhydd mewn materion sy'n effeithio arnynt, ac i'r safbwyntiau hynny gael eu cymryd o ddifrif yn ôl eu hoedran a'u haeddfedrwydd	Ie		Mae'r Cod diwygiedig yn cefnogi trwy ymwreiddio cydgynhyrchu, cyfranogiad a chomisiynu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn trwy gydol ei egwyddorion a'i safonau. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gomisiynwyr wrando ar fabanod, plant neu bobl ifanc a theuluoedd a'u cynnwys wrth lunio gwasanaethau, deall yr hyn sy'n bwysig iddynt a defnyddio eu barn a'u profiadau i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod barn babanod, plant neu bobl ifanc yn cael ei chlywed a'i chymryd o ddifrif mewn materion sy'n effeithio arnynt.
Erthygl 13: Rhyddid mynegiant a gwybodaeth: Mae gan fabanod, plant neu bobl ifanc yr hawl i geisio, cael a rhannu gwybodaeth a syniadau mewn gwahanol ffyrdd	Ie		Mae'r Cod diwygiedig yn cefnogi trwy ategu gwerthoedd craidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru, gan gynnwys llais a rheolaeth, atal ac ymyrryd yn fuan, lles a chydgynhyrchu. Trwy ei ffocws ar hygyrchedd, ymgysylltu a chyfathrebu, mae'r cod yn helpu babanod, plant neu bobl ifanc i arfer eu hawl i geisio, cael a rhannu gwybodaeth.
Erthygl 15: Rhyddid i ymgysylltu: Mae gan fabanod, plant neu bobl ifanc yr hawl i gwrdd ag eraill, gwneud ffrindiau, ymuno â grwpiau, clybiau a sefydliadau	Ie		Mae'r Cod diwygiedig yn cefnogi trwy hyrwyddo cynhwysiant, cyfranogiad cymunedol a chymorth sy'n seiliedig ar berthynas. Trwy ei bwyslais ar gydgynhyrchu, lles, cydraddoldeb a gwasanaethau cymunedol, mae'r cod yn helpu i greu cyfleoedd i fabanod, plant neu bobl ifanc wneud ffrindiau, ymuno â grwpiau a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cefnogi eu datblygiad a'u lles.
Erthygl 16: Yr hawl i breifatrwydd: Mae gan fabanod, plant neu bobl	Ie		Mae'r Cod diwygiedig yn cefnogi trwy ymwreiddio hawliau dynol, urddas ac arferion sy'n canolbwyntio ar yr

ifanc yr hawl i breifatrwydd, bywyd teuluol, cartref, gohebiaeth ac amddiffyniad rhag ymyrraeth anghyfreithlon			unigolyn o fewn prosesau comisiynu. Trwy ei ffocws ar barchu unigolion, diogelu gwybodaeth bersonol a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffyrdd sy'n cynnal hawliau pobl, mae'r cod yn helpu i ddiogelu preifatrwydd, bywyd teuluol ac urddas babanod, plant neu bobl ifanc.
Erthygl 17: Mynediad at wybodaeth briodol: Mae gan fabanod, plant neu bobl ifanc yr hawl i gael gafael ar wybodaeth ddibynadwy o amrywiaeth o ffynonellau sy'n cefnogi eu lles a'u datblygiad	Ie		Mae'r Cod diwygiedig yn cefnogi trwy hyrwyddo mynediad at wybodaeth glir, ddibynadwy a hygyrch sy'n galluogi babanod, plant neu bobl ifanc i gymryd rhan mewn penderfyniadau, cael mynediad at wasanaethau a chefnogi eu lles, eu hanghenion cyfathrebu, cydgynhyrchu a chomisiynu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
Erthygl 18: Cyfrifoldebau a chymorth magu plant: Mae rhieni yn rhannu cyfrifoldeb am fagu babanod, plant neu bobl ifanc, a dylai llywodraethau eu cefnogi i wneud hynny	Ie		Mae'r Cod diwygiedig yn cefnogi trwy ei gwneud yn ofynnol i gomisiynwyr gynllunio a darparu gwasanaethau ataliol sy'n canolbwyntio ar y teulu sy'n hyrwyddo lles babanod, plant neu bobl ifanc, sy'n cryfhau cymorth i rieni a gofalwyr ac sy'n ymwreiddio hawliau babanod, plant neu bobl ifanc wrth gynllunio gwasanaethau.
Erthygl 19: Amddiffyniad rhag camdriniaeth ac esgeulustod: Mae gan fabanod, plant neu bobl ifanc yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag pob math o drais, camdriniaeth, esgeulustod a chamfanteisio	Ie		Mae'r Cod diwygiedig yn cefnogi trwy ei gwneud yn ofynnol i ddiogelu gael ei ymwreiddio yn y broses o gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth, gan sicrhau bod babanod, plant neu bobl ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod a chamfanteisio. Mae'r Cod yn hyrwyddo hawliau babanod, plant neu bobl ifanc, yn gorfodi'r defnydd o weithdrefnau a safonau diogelu cenedlaethol, yn

			cryfhau ymyrraeth gynnar, ac yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau ddiogelu a hyrwyddo lles babanod, plant neu bobl ifanc ym mhob agwedd ar y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.
Erthygl 20: Babanod, plant neu bobl ifanc sydd wedi'u hamddifadu o'u hamgylchedd teuluol: Mae gan fabanod, plant neu bobl ifanc nad ydynt yn gallu byw gyda'u teulu yr hawl i amddiffyniad arbennig a gofal amgen	Ie		Mae'r Cod diwygiedig yn cefnogi trwy ei gwneud yn ofynnol i gomisiynwyr sicrhau gofal diogel, o ansawdd uchel ac yn seiliedig ar hawliau sy'n cefnogi plant sy'n byw mewn gofal maeth, sy'n derbyn gofal gan berthynas, gofal preswyl a llety â chymorth. Mae hyn yn tynnu sylw hefyd at rôl comisiynu effeithiol wrth gefnogi gofal sefydlog, o ansawdd uchel yn agos at gymunedau plant a chynnal cysylltiadau teuluol, diwylliannol a chymunedol pwysig lle bo hynny'n briodol. Mae'n hyrwyddo lles babanod, plant neu bobl ifanc, diogelu, cyfrifoldebau rhianta corfforaethol, gofal yn agos i'w cartref.
Erthygl 21: Mabwysiadu: Pan ganiateir mabwysiadu, rhaid i fuddiannau gorau'r babi, y plentyn neu'r person ifanc fod yn brif ystyriaeth	Ie		Mae'r Cod diwygiedig yn cefnogi trwy ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau babanod, plant neu bobl ifanc gael eu comisiynu mewn ffordd sy'n blaenoriaethu hawliau, lles, diogelwch a chanlyniadau hirdymor babanod, plant neu bobl ifanc. Trwy ei bwyslais ar CCUHP, arferion sy'n seiliedig ar hawliau babanod, plant neu bobl ifanc, cyfrifoldebau rhianta corfforaethol, diogelu a gofal o ansawdd uchel ar gyfer babanod, plant neu bobl ifanc sy'n derbyn gofal, mae'r Cod yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau sy'n effeithio ar fabanod, plant neu bobl ifanc nad ydynt yn gallu byw gyda'u teuluoedd geni yn cael

			eu harwain gan eu buddiannau gorau.
Erthygl 22: Babanod, plant neu bobl ifanc sy'n ffoaduriaid: Mae gan fabanod, plant neu bobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n ceisio lloches yr un hawliau â phob babi, plentyn neu berson ifanc arall **==** a dylent gael amddiffyniad a chymorth priodol	Ie		Mae'r Cod diwygiedig yn cefnogi trwy ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau gofal a chymorth gael eu comisiynu mewn ffordd sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, hawliau dynol, lles a diogelu ar gyfer pob babi, plentyn neu berson ifanc. Mae gan y cod gyswllt cryf â'r CCUHP ac ymrwymiad cryf iddo, gan greu comisiynu cynhwysol, amddiffyniad rhag niwed, a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
Erthygl 23: Babanod, plant neu bobl ifanc ag anableddau: Mae gan fabanod, plant neu bobl ifanc anabl yr hawl i ofal, cymorth a chyfleoedd arbennig i fyw bywydau llawn ac annibynnol	Ie		Mae'r Cod diwygiedig yn cefnogi trwy ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau ar gyfer babanod, plant neu bobl ifanc anabl gael eu comisiynu yn unol ag egwyddorion lles, cynhwysiant, cydraddoldeb, hygyrchedd a chyfranogiad. Trwy ei ymrwymiad cryf i CCUHP a CCUHP, cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ymyrraeth gynnar, cydgynhyrchu a chomisiynu sy'n seiliedig ar hawliau dynol, mae'r Cod yn helpu i sicrhau bod babanod, plant neu bobl ifanc anabl yn cael y gofal, y cymorth a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau llawn, annibynnol a gwerth chweil.
Erthygl 25: Adolygu trefniadau gofal: Mae gan fabanod, plant neu bobl ifanc sydd mewn gofal neu drefniadau gofal eraill yr hawl i gael adolygiadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod eu lles yn cael ei ddiogelu	Ie		Mae'r Cod diwygiedig yn cefnogi trwy ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau gofal a chymorth gael eu monitro, eu gwerthuso a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion babanod, plant neu bobl ifanc a diogelu eu lles. Mae pwyslais cryf yn y Cod ar ganlyniadau, diogelu, cydgynhyrchu, monitro contractau a

			gwelliant parhaus, mae'n helpu i sicrhau hefyd bod babi, plentyn neu berson ifanc mewn gofal neu drefniadau gofal eraill yn cael goruchwyliaeth ac amddiffyniad parhaus. Mae dolenni i'r Cod Ymarfer newydd ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig 2026 yn helpu i gefnogi hyn hefyd.
Erthygl 31: Hamdden, chwarae a diwylliant: Mae gan fabanod, plant neu bobl ifanc yr hawl i orffwys, chwarae, cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chymryd rhan mewn bywyd diwylliannol ac artistig	Ie		Mae'r Cod diwygiedig yn cefnogi trwy ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau hyrwyddo lles, cynhwysiant, cyfranogiad cymunedol a datblygiad personol babanod, plant neu bobl ifanc. Mae'r Cod wedi'i wreiddio'n gryf yn yr egwyddor o ganolbwyntio ar ganlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cysylltiadau cymunedol, cydraddoldeb, cydgynhyrchu a chyfleoedd i fabanod, plant neu bobl ifanc fod yn llewyrchus a ffynnu.
Erthygl 33: Amddiffyn rhag cyffuriau: Mae gan fabanod, plant neu bobl ifanc yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag y defnydd a'r weithred o gynhyrchu a masnachu cyffuriau anghyfreithlon.	Ie		Mae'r Cod diwygiedig yn cefnogi trwy ei gwneud yn ofynnol i gomisiynwyr ddiogelu babanod, plant neu bobl ifanc i hyrwyddo eu lles, darparu gwasanaethau atal ac ymyrryd yn fuan, a chomisiynu gofal a chymorth sy'n amddiffyn babanod, plant neu bobl ifanc rhag niwed a chamfanteisio. Er nad yw'r Cod yn canolbwyntio'n benodol ar gamddefnyddio neu fasnachu cyffuriau, mae ei ofynion diogelu ac atal a'i ofynion amddiffyn babanod, plant neu bobl ifanc yn cyfrannu at amddiffyn babanod, plant neu bobl ifanc rhag risgiau sy'n

			gysylltiedig â chyffuriau. Mae'n cefnogi gweithio ar draws gwasanaethau, ymgorffori gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol a hyrwyddo lles a gwydnwch babanod, plant neu bobl ifanc.
Erthygl 36: Amddiffyn rhag camfanteisio: Mae gan fabanod, plant neu bobl ifanc yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag gweithgareddau a allai beri niwed i'w lles a'u datblygiad			Mae'r Fframwaith yn nodi bod yn rhaid i gomisiynwyr roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Babi, y Plentyn neu'r Person Ifanc (CCUHP) ac, wrth gomisiynu gwasanaethau ar gyfer babanod, plant neu bobl ifanc, dylent ddilyn Dull Gweithredu: seiliedig ar Hawliau Babanod, Plant neu Bobl Ifanc ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod diogelwch, urddas a buddiannau gorau babanod, plant neu bobl ifanc yn parhau i fod yn rhan annatod o'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.
Erthygl 39: Dylai plant sydd wedi eu hesgeuluso neu eu cam-drin gael cymorth arbennig i adfer eu hunan-barch			Mae'r Cod yn hyrwyddo ymarfer comisiynu sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gwasanaethau gofal a chymorth, gan gynnwys plant mewn gofal, plant wedi'u mabwysiadu, a phlant digwmni sy'n ceisio lloches. Efallai y bydd y plant hyn wedi profi trawma, camdriniaeth, esgeulustod, gwahanu neu golled. Mae'r Fframwaith yn hyrwyddo dulliau ataliol, sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, o gynllunio a darparu gwasanaethau, gan helpu i gefnogi adferiad, gwydnwch a chanlyniadau hirdymor cadarnhaol.

3. Cyngor Gweinidogol a Phenderfyniad y Gweinidog

- *Ar ôl ei gwblhau, rhaid i'ch Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gael ei gymeradwyo gan eich Dirprwy Gyfarwyddwr.*
- *Dylai canfyddiadau eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gael eu hintegreiddio yn eich cyngor gweinidogol i lywio penderfyniad y Gweinidog.*

4. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

- *Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog, dylid cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wefan Llywodraeth Cymru. Dylech ei anfon at reolwr gwe eich adran i'w gyhoeddi.*

  *Rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i gwblhau i flwch negeseuon e-bost CRIA@llyw.cymru hefyd.*

*****Dylech ddileu adrannau 4 a 5 cyn cyhoeddi*****

5. Cyfathrebu â babanod, plant neu bobl ifanc a phobl ifanc

- Os ydych chi wedi gofyn am farn babanod, plant a phobl ifanc ynghylch eich cynnig, sut y byddwch yn rhoi gwybod iddynt am y canlyniad?

Gan fod Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant yn rhan o'n grŵp rhanddeiliaid allanol, rydym wedi gofyn am i farn babanod, plant neu bobl ifanc gael ei hystyried. Rydym yn cydweithio'n agos hefyd â thimau comisiynu babanod, plant neu bobl ifanc ledled Cymru sydd wedi bod yn rhan o'n gwaith rhanddeiliaid allanol hefyd. Rydym wedi cyflwyno'r cod diwygiedig i'r holl randdeiliaid ac wedi gofyn am ragor o adborth. Mae Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant yn cyfathrebu'r diwygiadau a'r trafodaethau hyn i fabanod, plant neu bobl ifanc trwy eu Bwrdd a'u grŵp comisiynwyr ifanc.

6. Monitro ac Adolygu

- Amlinellwch pa fecanwaith monitro ac adolygu y byddwch yn ei roi ar waith i adolygu'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant.
- Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r polisi neu'r modd y'i rhoddir ar waith?

Trwy'r ymgynghoriad, byddwn yn ceisio barn ar effeithiau posibl y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol diwygiedig ar fabanod, plant neu bobl ifanc.

Rydym yn rhagweld y bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu, a bydd unrhyw newidiadau yn cael eu hymgorffori yn dilyn adborth gan randdeiliaid.